

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Hosbis Dewi Sant (Llandudno)
Dyddiad y gweithgarwch: 6 Gorffennaf
2021

Dyddiad cyhoeddi: 10 Awst 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Hosbis Dewi Sant fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Hosbis Gwirfoddol a Gynorthwyr yw Hosbis Dewi Sant. Ei phrif nod yw cynnig gofal arbenigol, holistaidd, lliniarol a gwasanaethau cysylltiedig, a hynny'n rhad ac am ddim, i bobl Gogledd-orllewin Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan yr Hosbis 14 o welyau i gleifion mewnol a darpariaeth i 10 o gleifion gofal dydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r Rheolwr Cofrestredig ar 6 Gorffennaf 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei wasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- A gaiff y risg o haint ei hasesu a'i rheoli i gadw'r cleifion, yr ymwelwyr a'r staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn nodi brigiadau o achosion / trosglwyddiadau nosocomiaidd o COVID-19 ac yn eu rheoli'n effeithiol?
- A yw'r amgylchedd yn ddiogel i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- A yw'r trefniadau rheoli staff yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol a sensitif?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau y gwnaethom edrych arnynt roedd yr asesiad risg diogelwch tân a'r cynllun gweithredu dilynol, canlyniadau'r archwiliad diweddaraf o gwympiadau a chanlyniadau'r archwiliad diweddaraf o friwiau pwysu a niwed i feinweoedd.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiwyd y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd oherwydd COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys codi carped yr orsaf nyrsys a gosod llawr y mae modd ei sychu'n lân yn ei le, a newid y cadeiriau ffabrig am gadeiriau y mae modd eu sychu'n lân. Mae ystafell sbâr yn yr hosbis hefyd sydd wedi'i thrawsnewid yn ystafell newid i'r staff. Cafodd oriau ychwanegol eu clustnodi hefyd i'r tîm cadw tŷ sicrhau bod ardaloedd a ddefnyddir yn aml fel y toiledau a'r drysau'n cael eu glanhau'n fwy rheolaidd.

Nododd y dystiolaeth a ddarparwyd fod yr hosbis wedi parhau i dderbyn cleifion, gan gynnwys cleifion a oedd wedi profi'n positif am COVID-19, ar gyfer gofal diwedd oes. Wrth dderbyn y cleifion, defnyddiwyd un o bedair ystafell yr oedd modd i'r hosbis ei thrawsnewid yn ardal ynysu ddiogel. Wedyn, rhoddwyd prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR)¹ i'r cleifion. Pan gafwyd canlyniad negatif, byddai'r claf yn cael ei drosglwyddo i'r ardal lle nad oedd angen ynysu. Pe bai'r canlyniad yn positif, roedd y claf yn derbyn gofal nyrsio yn yr ardal ynysu.

Dywedwyd wrthym fod ymwelwyr wedi cael dod i'r hosbis drwy gydol y pandemig. Dim ond dau ymwelydd fesul ymweliad o'r un swigen a allai fod yn bresennol² a dim ond am awr, ddwywaith y dydd y gallent aros. Gallai ymwelwyr ychwanegol ddod i'r ffenestr, a oedd yn cael ei fonitro'n agos. Roedd ymweliadau agored i'r cleifion ar ddiwedd eu hoes. Byddai'r risgiau yn cael eu hesbonio i'r ymwelwyr a fyddai'n cael PPE i'w wisgo yn ystafelloedd y cleifion. Byddai angen i'r ymwelwyr ateb cwestiynau'n gysylltiedig â COVID-19 i sicrhau nad

¹Mae profion PCR yn bennaf ar gyfer pobl sydd â symptomau'r coronafeirws (COVID-19). Roedd y prawf yn golygu swabio y tu mewn i'r trwyn a chefn y gwddf gan ddefnyddio pren cotwm hir. Anfonir y swab i'r labordy i gael y canlyniadau.

²Mae "swigen" yn derm answyddogol a ddefnyddir i ddisgrifio'r clwstwr o bobl y tu allan i'ch aelwyd yr ydych yn teimlo'n gyfforddus yn treulio amser gyda nhw yn ystod y pandemig.

oedd ganddynt unrhyw symptomau. Yn ogystal, byddent yn gweld sut i wisgo³ a diosg⁴ PPE yn gywir.

Gofynnwyd i'r ymwelwyr roi gwybod i'r staff nyrsio pan fyddent yn gadael ystafell y claf. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl i lanhau ystafell y claf yn fwy trylwyr a byddai'r staff yn ymwybodol o bwy oedd ar y safle yn achos tân. Roedd gan holl ystafelloedd y cleifion wely i ymwelwyr, yn wely sofffa neu gadair. Byddai'r cleifion hefyd yn cael eu symud i ystafelloedd mwy o faint pe bai angen er mwyn i ymwelwyr ychwanegol allu aros yno.

Cafodd y trefniadau i sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal bob amser eu disgrifio. Roedd yr holl gleifion yn derbyn gofal mewn ystafelloedd sengl a phwysleisiodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd cyfathrebu â'r cleifion a'r staff er mwyn sicrhau bod eu hanghenion a'u dymuniadau'n cael eu diwallu. Roedd yr hosbis yn cyflogi gweithiwr cymdeithasol a swyddog diogelu i sicrhau hawliau'r cleifion a oedd heb alluedd meddyliol. Er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion ymhellach, roedd gan bob ystafell sgriniau solet ar olwynion i'w defnyddio pan oedd triniaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion, ac roedd y drysau a'r bleinds ar y ffenestri yn cael eu cau.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn defnyddio llechi i'w galluogi i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau a hefyd i wyllo gwasanaethau'r gaplaniaeth a oedd ar-lein yn ystod y pandemig. Cawsom wybod hefyd, yn ystod y pandemig, y bu priodas yn yr hosbis yn ymwneud ag un o'r cleifion. Er y bu'n anodd i'r cleifion gymdeithasu â'i gilydd yn ystod y pandemig, roedd yr hosbis wedi mynd ati i ddiwallu anghenion y cleifion mewn ffyrdd eraill. Roedd yr hosbis yn defnyddio llechi a reolir gan y llygaid er mwyn galluogi'r cleifion ag anghenion cymhleth, a oedd yn methu â symud, i gyfathrebu a chwarae gemau ar-lein.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod Iechyd Cyhoeddus Cymru⁵ wedi darparu canllawiau a chyngor yn ystod y pandemig a'i fod yn gefnogol iawn. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys gwybodaeth am brofion, beth i'w wneud pe bai canlyniadau positif a threfniadau ynysu i'r staff. Cafodd y staff wybod am newidiadau a diweddariadau i'r canllawiau, drwy hysbysfwrdd y staff a diweddariadau staff dyddiol, yn ogystal â chyfarfodydd ar y ward.

Cawsom wybod y gofynnwyd i'r teuluoedd ond cael un neu ddau berson enwebedig i ffonio'r hosbis. Wedyn, gofynnwyd iddynt rannu'r alwad â pherthnasau a ffrindiau eraill. Yn ogystal, roedd gan y rhan fwyaf o'r cleifion ffonau symudol a gofynnwyd i'r teuluoedd ffonio'r cleifion yn uniongyrchol lle roedd modd iddynt wneud hynny.

Dywedwyd wrthym fod nifer o'r staff yn siarad Cymraeg ac roedd modd i'r cleifion siarad â'r staff yn Gymraeg neu'n Saesneg. Roedd gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r cleifion nad oeddent

³ Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen.

⁴ Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd.

⁵ Un o Ymddiriedolaethau'r GIG yw Iechyd Cyhoeddus Cymru a gafodd ei sefydlu ar 1 Hydref 2009 fel rhan o broses ad-drefnu fawr o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Ei nod yw diogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

yn siarad Cymraeg na Saesneg.

Gwelsom dystiolaeth o ganlyniadau boddhaol yn yr archwiliadau misol rheolaidd o gwmpiaidau a oedd yn cynnwys monitro'r gwaith o gwblhau asesiadau risg o gwmpiaidau i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod yr hosbis wedi bod yn ceisio gwella'r gwaith o gwblhau cynlluniau gofal. Roedd yr hosbis hefyd yn cyflogi cwmni preifat i hyfforddi tri aelod o'r staff i fod yn hyfforddwyr ar gyfer codi a chario er mwyn eu galluogi i asesu'n well y risgiau sy'n gysylltiedig â'r agwedd hon ar ofal. Gwelsom dystiolaeth hefyd o'r adroddiad cwmpiaidau blynyddol a oedd yn dangos yr hyn a oedd yn cael ei wneud i leihau cwmpiaidau, gan gynnwys adnewyddu'r system clychau galw a gosod larymau wrth y gwelyau i'r cleifion a oedd yn ceisio codi o'r gwely.

Rhodddwyd manylion digwyddiadau a'r camau a gymerwyd dros y tri mis blaenorol inni. Dangosodd hyn fod yr holl ddamweiniau, digwyddiadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod grŵp arwain clinigol nesaf i'w trafod a phennu pwyntiau dysgu. Cyflwynwyd pob digwyddiad i gyfarfod tîm rheoli wythnosol nesaf yr hosbis. Hefyd cafodd digwyddiadau arwyddocaol eu cyflwyno i Gyfarfod Digwyddiadau Arwyddocaol Gofal Lliniarol Arbenigol Gogledd Cymru.

Cafodd asesiadau risg o gleifion eu cwblhau ar y cyd â'r claf, y gofalwr a'r tîm aml-ddisgyblaethol ehangach, ac yna byddai'r rhain yn dylanwadu ar y cynlluniau gofal unigoleddig. Datblygwyd y cynlluniau gofal gyda'r cleifion, y teuluoedd a'r gofawyr gan sicrhau bod anghenion a dewisiadau'r cleifion yn cael eu diwallu lle bo'n bosibl.

Nodwyd y maes canlynol i'w wella:

Rhodddwyd nifer o ddogfennau inni, gan gynnwys Polisi Rheoli Risg a gyfeiriodd at yr angen i gynnal asesiadau risg. Roedd dogfen arall o'r enw Safon Amgylcheddol 12 hefyd yn cyfeirio at yr angen am asesiadau risg sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd o unrhyw risgiau amgylcheddol. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg amgylcheddol ar waith yn yr hosbis a oedd yn nodi:

- yr holl risgiau amgylcheddol, yn yr ysbyty cyfan, gan gynnwys y tir
- y mesurau lliniaru a'r rheolaethau a oedd ar waith i reoli'r risgiau;
- unrhyw gamau a oedd yn ofynnol i leihau'r risgiau ymhellach.

Mae'n rhaid i'r hosbis gwblhau asesiad risg amgylcheddol yn llawn.

Atal a Rheoli Heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Data presennol ar gyfraddau heintiau
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo diweddaraf
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni glanhau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiwyd y newidiadau a oedd wedi cael eu rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau glanhau ychwanegol yn yr ysbyty a sicrhau bod weips a geliau gwrthfacterol ychwanegol ar gael ym mhob ardal. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod y tapiâu ar y sinciau y tu allan i'r ystafelloedd wedi'u newid i dapiau braich hir, nid oedd modd defnyddio'r sychwyr dwylo ac roedd tywelion papur ar gael.

Roedd digon o PPE ar gael i'r staff drwy gydol y pandemig. Roedd yr hosbis wedi aros yn rhan o gyflenwad PPE y bwrdd iechyd lleol, gan gynnwys cyflenwi masgiau a ffitio masgiau FFP3⁶. Roedd posterï ar y defnydd o PPE yn ystafelloedd y cleifion hefyd. Dywedwyd wrthym, os nad oedd y staff yn teimlo'n hyderus yn nyrsio'r cleifion cyn derbyn canlyniadau profion COVID-19, y byddent yn defnyddio masgiau FFP3.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu cael hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol a'r adnoddau ar-lein sydd ar gael a diweddariadau lechyd Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal, gwnaeth staff o'r bwrdd iechyd lleol hyfforddi aelodau o staff nyrsio'r hosbis i fod yn hyfforddwyr atal a rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael profion PCR wythnosol ac roedd y staff hefyd yn cael profion llif unffordd cyflym ddwywaith yr wythnos⁷.

Dywedwyd wrthym hefyd am y prosesau sydd ar waith i brofi cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19 lle bo'n ofynnol. Roedd hyn yn cynnwys, fel yr esboniwyd yn adran yr amgylchedd uchod, ynysu'r holl gleifion a oedd yn cael eu trosglwyddo i'r hosbis mewn ystafelloedd sengl yn y lle cyntaf a chynnal prawf COVID-19. Roedd y cleifion yn ymwybodol o'r mesurau rheoli ac roedd llai o staff yn nyrsio'r cleifion hyn. Gofynnwyd i unrhyw staff amlddisgyblaethol gysylltu â'r cleifion COVID-19 ar-lein. Roedd nodiadau'r cleifion yn cael eu cadw y tu allan i ystafelloedd y cleifion.

⁶Mae masgiau anadlu FFP3 yn ofynnol fel rhan o'r cyfarpar diogelu personol COVID-19 sy'n cael eu gwisgo ar gyfer llwybrau gofal risg ganolig ac uchel lle cynhelir gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol yn unol â'r canllawiau ar atal a rheoli heintiau.

⁷ Prawf llif unffordd cyflym yw prawf coronafeirws rydych yn ei wneud eich hun. Mae'n dangos y canlyniad i chi ar ddyfais fach sy'n dod gyda'r prawf.

Roedd canlyniadau'r archwiliadau hylendid dwylo a ddarparwyd yn dangos cydymffurfiaeth lawn gan y staff. Gwnaeth yr adnodd archwilio'r amgylchedd rheoli heintiau ddangos y camau a oedd yn ofynnol yn dilyn yr archwiliad, gyda chynllun ar waith i ddatrys y camau hyn.

Dywedwyd wrthym fod nyrsys cyswllt rheoli heintiau'r hosbis yn cyfathrebu â thîm rheoli heintiau'r bwrdd iechyd lleol a'u bod yn cwblhau archwiliadau yn rheolaidd. Disgrifiai'r polisi atal a rheoli heintiau yr egwyddorion atal a rheoli heintiau a oedd wedi cael eu mabwysiadu gan Hosbis Dewi Sant a'u rhoi ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a oedd y trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr adroddiad ar ymweliad diweddaraf yr Unigolyn Cyfrifol yn unol â Rheoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Aseidiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch y staff
- Manylion digwyddiadau a'r camau a gymerwyd i'w datrys
- Nifer yr atgyfeiriadau diogelu
- Data ar leisiau'r cleifion
- Data ar leisiau'r rhieni / gofalwyr.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod yr hosbis yn defnyddio cymhareb o ddim mwy na phedwar claf i un nyrs gofrestredig ar gyfer y sifft dydd a chwe chlaf i un o'r aelodau o staff nos, gyda chymorth y gweithwyr cymorth gofal iechyd a gweithwyr iechyd perthynol proffesiynol eraill. Defnyddiwyd y Rhaglen Gydweithredol ar Gymhlethdod ac Asesu Canlyniadau (OACC)⁸ i gefnogi'r gymhareb

⁸ Mae prosiect OACC (Rhaglen Gydweithredol ar Gymhlethdod ac Asesu Canlyniadau) yn gyfres o fesurau

staffio. Roedd hon yn cymharu cymhlethdod y cleifion a fyddai'n effeithio ar y gymhareb cleifion i nyrsys er mwyn osgoi'r risg o fethu â darparu gofal effeithiol diogel.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant ychwanegol a oedd yn angenrheidiol ac yn berthnasol i'w cefnogi yn eu gwaith. Roedd hyn yn cynnwys yr hosbis yn rhoi cyfleoedd a chyllid i fynychu cyrsiau addysg a hyfforddiant perthnasol. Roedd yr hosbis yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Cymru, Bangor hefyd i ddarparu modiwlau gofal lliniarol achrededig⁹ ar lefel 6/7 i'r bwrdd iechyd lleol, cartrefi nyrsio a hosbisau eraill.

Nododd y rheolwr cofrestredig y bu'n anodd cynnal sesiynau goruchwyllo clinigol ac nad oedd proses oruchwyllo ffurfiol. Bu proses ar waith gan ddefnyddio hwyluswyr allanol ond ni weithiodd hyn yn dda i'r staff. Er bod y staff wedi cael eu hailddilysu¹⁰, nododd y rheolwr cofrestredig fod angen proses oruchwyllo fwy ffurfiol. Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff (y ddwy yn nyrsys staff) wedi cael y dasg o weithio ar gynllun goruchwylloeth glinigol ffurfiol y byddai'r hosbis yn talu amdano i fynd i'r afael â hyn. Cyn y pandemig, dywedwyd wrthym nad oedd rhai aelodau o'r staff am gael unrhyw oruchwylloeth a chafodd rhai ohonynt gyfarfodydd myfyrio¹¹. Dywedwyd wrthym fod y cyfarfodydd myfyrio wedi gweithio'n dda a gwnaeth rhai gwblhau hyn drwy alwad fideo. Gall y staff hefyd ofyn am drafodaeth tîm amlddisgyblaethol ar ddigwyddiad penodol, a gellir gwneud y cais hwn yn ddienw os dymunir. Wedyn, mae'r staff yn dewis yr agenda ac mae'r metron a'r prif nyrsys yn hwyluso hyn. Roedd aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol yn bresennol, gan gynnwys y meddygon i fyfyrio a symud ymlaen.

Cafodd y trefniadau a'r mentrau a gyflwynwyd i gefnogi llesiant y staff yn sgil COVID-19 eu rhestru. Roedd y rhain yn cynnwys cwnsela dros y ffôn, myfyrdod, cyfarfodydd a chafodd y staff gynnig therapi cyflenwol a therapi ymlacio hefyd.

Dywedwyd wrthym er na chafwyd unrhyw atgyfeiriadau diogelu, roedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o'r broses. Yn ogystal, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn yr hosbis wedi cael ei gyflogi ym maes diogelu yn flaenorol a rhoddai sesiynau hyfforddiant i'r staff.

Trafodwyd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth na cheisier dadebru cardio-anadlol¹² (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd

canlyniadau addas i'r diben a ddyluniwyd i ddal a dangos y gwahaniaeth hwn ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol.¹ Gellir defnyddio'r mesurau canlyniadau hyn i wella gwaith tîm, sicrhau gwell ansawdd, cyflwyno tystiolaeth ar effaith gwasanaethau, llywio gwaith comisiynu ac, yn bwysicaf oll, gyflawni gwell canlyniadau i'r cleifion a'r teuluoedd.

⁹ Mae gofal lliniarol yn ddull o roi gofal meddygol mewn modd rhyngddisgyblaethol sydd â'r nod o sicrhau'r ansawdd gorau mewn bywyd a lliniaru dioddefaint pobl ag afiechydon difrifol, cymhleth.

¹⁰ Ailddilysu yw'r mecanwaith a ddefnyddir i gadarnhau neu sefydlu cymhwysedd parhaus ymarferwyr iechyd, gan gryfhau a hwyluso ymrwymiad moesegol a phroffesiynol i leihau camgymeriadau, gan lynu wrth arferion gorau a gwella ansawdd gofal.

¹¹ Myfyrio yw'r broses o wneud synnwyr o brofiad er mwyn dysgu a gwella fel ymarferydd.

¹² Mae DNACPR yn golygu os bydd calon neu anadlu claf yn stopio na fydd y tîm gofal iechyd yn ceisio ei ailgychwyn.

briodol a sensitif. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth â'r claf a'r teulu, gan gynnwys y staff yn esbonio nad oedd hyn yn gysylltiedig â rheoli gofal iechyd y claf.

Gwelsom dystiolaeth bod canran cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol dros 75% ar hyn o bryd, gyda threfniadau ar waith i sicrhau bod y ffigur hwn yn cael ei wella. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn cael eu cefnogi i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol, gydag amser yn cael ei neilltuo ar gyfer yr hyfforddiant hwn.

Disgrifiwyd y system a ddefnyddiwyd cyn y pandemig i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau. Byddai bwrdd yr hosbis yn ymweld â'r ward a'r ardaloedd trin, yn archwilio'r amgylchedd yn gyffredinol ac yn siarad â'r cleifion a'u teuluoedd. Oherwydd y risgiau o heintiau rhwng y staff, yr ymwelwyr a staff a chleifion yr hosbis, nid oedd yr ymweliadau hyn wedi digwydd ers mis Mawrth 2020. Yn ogystal, rhoddwyd tystiolaeth inni o'r adborth a ddarparwyd gan y cleifion dros y chwe mis diwethaf, a ddangosodd canlyniadau cadarnhaol iawn.

Roedd tystiolaeth bod unigolyn cyfrifol yr hosbis wedi ymweld ym mis Mawrth 2020 cyn y pandemig, ond oherwydd y risgiau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19, nid oedd ymweliad arall wedi bod. Gwnaed ymweliad pellach yn dilyn y gwiriad ansawdd ac anfonwyd copi o'r adroddiad i AGIC. Mae'r ymweliadau hyn yn ymwneud â'r gofyniad yn rheoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 i asesu ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn erbyn rheoliadau a safonau perthnasol. Ar ôl cwblhau'r ymweliad, byddai adroddiad yn cael ei lunio y mae'n rhaid iddo wedyn gael ei gyflwyno i'r rheolwr cofrestredig ac AGIC.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Ni chawsom dystiolaeth o'r ganran cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu (PADRau). Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y cyfraddau hyn yn isel iawn. Nododd y rheolwr cofrestredig y byddai'r system adnoddau dynol newydd yn mynd i'r afael â hyn a bod dyddiadau wedi cael eu nodi i gwblhau'r adolygiadau hyn erbyn diwedd mis Medi 2021.

Dylai'r hosbis sicrhau bod y PADR yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2021 a bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau nad yw hyn yn cael ei ailadrodd.

Roedd y polisi o'r enw Cynllun Argyfwng ac Wrth Gefn yn hwyr yn cael ei adolygu. Nod y cynllun hwn oedd gosod y gweithdrefnau a'r strategaethau i'w dilyn yn achos argyfwng neu fusnes yn cael ei darfu sy'n effeithio ar allu'r hosbis i ddarparu gwasanaethau yn ôl yr arfer.

Dylai'r hosbis sicrhau bod yr holl bolisiâu yn cael eu hadolygu, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol i weithrediad yr hosbis a bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau nad yw hyn yn cael ei ailadrodd.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Hosbis Dewi Sant (Llandudno)

Dyddiad y gweithgarwch: 6 Gorffennaf 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhodddwyd nifer o ddogfennau inni, gan gynnwys Polisi Rheoli Risg a gyfeiriodd at yr angen i gynnal asesiadau risg. Roedd dogfen arall o'r enw Safon Amgylcheddol 12 hefyd yn cyfeirio at yr angen am asesiadau risg sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd o unrhyw risgiau amgylcheddol. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg amgylcheddol ar waith yn yr hosbis a oedd yn nodi: <ul style="list-style-type: none">yr holl risgiau amgylcheddol,	Rheoliad 19 (Asesu a monitro ansawdd y ddarpariaeth o wasanaethau, gan gynnwys datganiadau blynyddol) a 26 (Ffitrwydd y Fangre)	Mae Delyn Health and Safety bellach wedi diweddarau a chwblhau'r asesiad risg ar gyfer Hosbis Dewi Sant, ac mae copi wedi'i anfon i AGIC Bydd pob cam yn cael ei adolygu'n Fisol yng nghyfarfod Tîm Rheoli'r Hosbis fel y bo'n ofynnol; bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu 07/2021	Rheolwr Cofrestredig	Cwblhawyd

	<p>yn yr ysbyty cyfan, gan gynnwys y tir</p> <ul style="list-style-type: none"> • y mesurau lliniaru a'r rheolaethau a oedd ar waith i reoli'r risgiau; • unrhyw gamau a oedd yn ofynnol i leihau'r risgiau ymhellach. <p>Mae'n rhaid i'r hosbis gwblhau asesiad risg amgylcheddol yn llawn.</p>					
2	<p>Ni chawsom dystiolaeth o'r ganran cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu (PADRau). Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y cyfraddau hyn yn isel iawn. Nododd y rheolwr cofrestredig y byddai'r system adnoddau dynol newydd yn mynd i'r afael â hyn a bod dyddiadau wedi cael eu nodi i gwblhau'r adolygiadau hyn erbyn diwedd mis Medi 2021.</p> <p>Dylai'r hosbis sicrhau bod y PADR yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2021 a bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau nad yw hyn yn cael ei ailadrodd.</p>	Rheoliad (Staffio)	20	<p>Mae'r holl adolygiadau o berfformiad a datblygiad wedi'u trefnu a'u blaenoriaethu i'w cwblhau erbyn diwedd mis Medi 2021.</p> <p>Defnyddir y system adnoddau dynol i anfon negeseuon atgoffa at bob rheolwr i gwblhau adolygiadau o berfformiad a datblygiad dilynol mewn amserlen y cytunir arni o 2022 ymlaen. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro gan Dîm Rheoli'r Hosbis a Phwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol yr Hosbis.</p>	Rheolwr Cofrestredig a Phrif Weithredwr	Ar waith ac ar y trywydd cywir ar gyfer mis Medi 2021

3	<p>Roedd y polisi o'r enw Cynllun Argyfwng ac Wrth Gefn yn hwyr yn cael ei adolygu. Nod y cynllun hwn oedd gosod y gweithdrefnau a'r strategaethau i'w dilyn yn achos argyfwng neu fusnes yn cael ei darfu sy'n effeithio ar allu'r hosbis i ddarparu gwasanaethau yn ôl yr arfer.</p> <p>Dylai'r hosbis sicrhau bod yr holl bolisiau yn cael eu hadolygu, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol i weithrediad yr hosbis a bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau nad yw hyn yn cael ei ailadrodd.</p>	Rheoliad 9 (Polisiau a Gweithdrefnau)	<p>Bydd y polisi'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau i'w gymeradwyo gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Hosbis ym mis Medi 2021.</p> <p>Bydd yr holl bolisiau'n cael eu holrhain i'w hadolygu a'u diweddarau drwy gyfleuster olrhain dogfennau newydd sydd bellach ar waith</p>	Prif Weithredwr	Ar waith ac ar y trywydd cywir ar gyfer mis Medi 2021.
---	---	---	---	-----------------	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Trystan Prichard, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifol

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2021